**Eitem ar yr agenda: 7**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | PANEL GWEITHREDOL |
| **DYDDIAD:** | 18 MAI 2006 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | NEWIDIADAU I'R RHEOLIADAU ARIANNOL A RHEOLAU SEFYDLOG MEWN PERTHYNAS Â CHYTUNDEBAU |

1. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Panel Gweithredol ar 13 Mawrth 2006 ar y 'Cynllun Arfaethedig i uno Adran Ystadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) gydag Adran Rheoli Cyfleusterau Heddlu Gogledd Cymru'. Un o'r argymhellion yn yr adroddiad oedd bod y Trysorydd yn edrych ar unrhyw effeithiau canlyniadol ar y Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau.

2. Y sefyllfa bresennol yw y bydd Adain Archwilio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal adolygiad llawn o'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac oherwydd y graddfeydd amser dan sylw, bydd unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r uno yn cael eu hymgorffori ar adeg yr adolygiad llawn. Mae'r uno yn yr arfaeth ar gyfer 5 Mehefin 2006 ac fel mesur dros dro, y cynnig yw cymeradwyo'r canlynol:

   - Pob cytundeb a wneir yn enw GTAGC gan yr Adran Ystadau newydd i fod yn agored i'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau <u>ac eithrio</u> pan fo'r Adran Ystadau newydd yn gallu elwa ar y cydweithio e.e. negodi un cytundeb ar gyfer Ystadau'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân. Dan yr amgylchiadau hyn, byddai'r cytundeb y tu allan i gwmpas Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau presennol GTAGC ond byddai'n agored i reoliadau tebyg sy'n rheoli Adran Ystadau Heddlu Gogledd Cymru.

**3. ARGYMHELLION**

i) Bod yr holl gytundebau a wneir yn enw GTAGC gan yr Adran Ystadau newydd yn agored i'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau presennol.

ii) Ystyrir bod unrhyw gytundebau a wneir fel rhan o'r trefniadau cydweithredol y tu allan i gwmpas Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau GTAGC.

**K W Finch**

**Trysorydd**

**27 Ebrill 2006**